COFNODION | *MINUTES*

Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf *Community Council* (CCLIME)
Llyfrgell Benllech *Library*
26.10.2026 @ 19:00

Cynghorwyr: ***Councillors:***	Iwan Kellett (IK) (Cadeirydd / Chair) John Humphreys (JH) (Is-Gadeirydd / Vice Chair) Huw G Owen (HGO) Wenda Owen (WO) Olwen Green (OG) Rhys Jones (RhJ) Gwyneth Davies (GD) Rhian Mair Jones (RhMJ) Eira Fôn Parry (EFP)
Clerc: ***Clerk:***	Laura Sutton (LS)
Cyfieithydd: ***Translator:***	Nid oedd angen cyfieithydd ar gyfer y cyfarfod hwn | *Translator was not required for this meeting.*

1. Ymddiheuriadau | *Apologies*

Barbara Price (BP)
Sioned Wyn (SW)
Ieuan Williams (IW)
Rhodri Owen (RhO)

2. Datganiadau o Ddiddordeb | *Declarations of Interest*

Datganodd y Clerc fuddiant yn eitem 5.2 a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad. | *The Clerk declared an interest in item 5.2 and left the room during the discussion and decision.*

3. Cofnodion | *Minutes of the Previous Meeting*

Cofnodion cyfarfod 21/09/2026. Cynigiwyd gan OG, eiliwyd gan RhMJ, a chytunodd y Cyngor i dderbyn y cofnodion fel cofnod cywir. | *Minutes of the meeting held 21/09/2026. Proposed by OG, seconded by RhMJ, and the Council agreed to accept the minutes as a true record.*

4. Cynllunio | *Planning*

4.1 FPL/2026/186 – Nid oedd gwrthwynebiadau | *No objections were raised.*

4.2 LUE/2024/24 – Nid oedd gwrthwynebiadau | *No objections were raised.*

4.3 FPL/2026/185 – Penllain Caravan Park, Tyn y Gongl. Nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad i'r cais ôl-weithredol i gadw pod glampio tymhorol at ddefnydd gwyliau. Fodd bynnag, cyfarwyddwyd y Clerc i anfon sylwadau'r Cyngor yn nodi nad yw'n cefnogi rhagor o ddatblygiadau tebyg yn y dyfodol. | *The Council raised no objection to the retrospective application to retain a seasonal glamping pod for holiday use. However, the Clerk was instructed to forward the Council's feedback stating that it would not support further similar development in the future.*

5. Materion y Cyngor a'r Gymuned | *Council & Community Matters*

Draft

5.1 Adroddiad cynnydd ar ddatblygiad yr ardal chwarae | *Progress report on play area development*

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar y prosiect. Eglurwyd bod y Cyngor yn aros am gymeradwyaeth cynllunio, cwblhau'r trefniadau prydles a chadarnhad o hawl tramwy ar hyd y llwybr troed. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn rhoi diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau yn y cyfarfod nesaf. | *The Chair updated the Council on the project, explaining that planning permission, finalisation of the lease arrangements and confirmation of a right of way along the footpath were still awaited. The Chair and Clerk will report any developments at the next meeting.*

5.2 Trafodaethau ac argymhellion y Pwyllgor Adnoddau Dynol | *HR Committee discussions and recommendations* Datganodd y Clerc fuddiant a gadawodd yr ystafell ar gyfer yr eitem hon *The Clerk declared an interest and left the room for this item*

Trafododd y Cadeirydd argymhellion ac adborth adolygiad perfformiad diweddar y Clerc, ac argymhellodd godi cyflog y Clerc i bwynt cyflog 27. Cytunodd y Cyngor i'r cynnydd. | *The Chair discussed the recommendations and feedback from the Clerk's recent performance review and recommended uplifting the Clerk's salary to pay scale point 27. The Council agreed to the uplift.*

5.3 Cyfarfod cyhoeddus Neuadd Brynteg | *Brynteg Hall public meeting*

Rhannwyd agenda cyfarfod Neuadd Brynteg gyda'r Cyngor, a rhoddodd y Clerc, a oedd wedi mynychu'r cyfarfod, grynodeb o'r trafodaethau. Nodwyd bod y neuadd yn gweithredu ar golled, bod angen syniadau i gynyddu archebion yn ystod y dydd, ac y byddai croeso i wirfoddolwyr helpu i drefnu digwyddiadau. Mynegodd yr aelodau sy'n byw ym Mrynteg eu cefnogaeth i'r ased cymunedol hwn a chytunwyd y byddent yn trafod ar wahân sut y gallent gynnig eu hamser a'u cefnogaeth. Cytunwyd na fyddai rhoi cyfraniad ariannol yn unig yn datrys y problemau, nac yn gynaliadwy i'r Cyngor nac yn deg i neuaddau eraill yr ardal. | *The agenda from the Brynteg Hall meeting was shared, and the Clerk, who had attended, updated members on the discussions. The hall was reported to be operating at a loss; ideas to increase daytime bookings and volunteers to organise events would be welcomed. Members living in Brynteg expressed support for this community asset and agreed to discuss separately how they might offer time and practical support. It was agreed that simply making a financial contribution would not resolve the issues, would not be sustainable for the Council, and would not be fair to other halls in the community.*

5.4 Mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog wedi'u diweddaru | *Adopt updated Standing Orders*

Penderfynodd y Cyngor fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, gan gynnwys y diweddariadau i'r rheolau caffael. | *The Council resolved to adopt the updated Standing Orders, incorporating the changes to procurement regulations.*

5.5 Draenio yn y fynwent | *Cemetery drainage*

Trafodwyd y pryderon ynghylch draenio yn y fynwent. Mynegodd y Clerc bryder y gallai glaw'r gaeaf achosi rhagor o lifogydd. Cytunwyd y dylid cadw arian wrth gefn ar gyfer unrhyw waith draenio y bydd ei angen ar ôl cwblhau'r ymchwiliad parhaus gan y Cyngor Sir. Trafodwyd pwmpio'r pydew cerrig mân fel mesur dros dro pe bai'r tywydd yn wael iawn. | *Members discussed cemetery drainage concerns. The Clerk expressed concern that winter rainfall could result in further flooding. It was agreed that funds should be set aside for any drainage work required following the County Council's ongoing investigation. Pumping out the soakaway was discussed as a temporary measure if weather conditions became particularly severe.*

5.6 Trafod y system unffordd arfaethedig | *Discuss the proposed one-way system*

Trafodwyd y system unffordd arfaethedig a nodwyd y cynlluniau. | *The proposed one-way system was discussed and the plans were noted.*

5.7 Adolygu Polisïau | *Review Policies*

Draft

Adolygwyd y Polisi Cyfryngau a Chyfathrebu a'r Polisi Caethwasiaeth Fodern. Cynigiwyd gan WO, eiliwyd gan JH, a chytunodd y Cyngor i fabwysiadu'r ddau bolisi a chofnodi eu bod wedi'u hadolygu am flwyddyn arall. | *The Media and Communications Policy and Modern Slavery Policy were reviewed. Proposed by WO and seconded by JH, the Council agreed to adopt both policies and record them as reviewed for another year.*

6. Cyllid | *Finance*

6.1 Trafodion Diweddar | *Recent Transactions*

Medi	14/09/2026	d/d	Plan.com (Ffôn)	Expenses
Medi	21/09/2026	Credit	Llogi offer cyfieithu (Llanddaniel)	Other Income
Medi	22/09/2026	PYMT	Archwilio Cymru | Audit Wales	Expenses
Medi	22/09/2026	TF	TF ALLAN / OUT	TRANSFER
Medi	22/09/2026	PYMT	CCTV Relocation Fee	Expenses
Medi	22/09/2026	PYMT	Blachere Christmas tree	Expenses
Medi	23/09/2026	S/O	Cyflog y Clerc Salary (Incl. backpay)	COSTAU STAFF / STAFF COSTS
Medi	24/09/2026	Credit	Mynwent | Cemetery	Other Income
Medi	24/09/2026	Credit	Mynwent | Cemetery	Other Income
Medi	24/09/2026	Credit	Mynwent | Cemetery	Other Income
Medi	28/09/2026	d/d	NATWEST CC	Expenses
Medi	30/09/2026	PYMT	Neuadd Brynteg Coeden Nadolig	Expenses
Medi	30/09/2026	PYMT	Wicksteed Park Repairs	Expenses
Medi	30/09/2026	S/O	Pensiwn | Pension	COSTAU STAFF / STAFF COSTS
Hyd	02/10/2026	Credit	Mynwent | Cemetery	Other Income
Hyd	08/10/2026	Credit	Mynwent | Cemetery	Other Income
Hyd	14/10/2026	d/d	Plan.com (Ffôn)	Expenses

Adolygodd y Cyngor yr adroddiad ariannol a chytunodd ei fod yn briodol ac yn gywir. | *The Council reviewed the financial report and agreed that it was appropriate and accurate.*

6.2 Cymodi Banc | Bank Reconciliation

Rhannodd y Clerc y datganiadau banc gyda'r Cyngor. Adolygodd OG y cysoniad banc a chadarnhaodd fod yr holl falansau'n cyfateb i'r llyfr arian. Roedd OG yn fodlon llofnodi'r cysoniad. | *The Clerk shared the bank statements with the Council. OG reviewed the bank reconciliation and confirmed that all balances matched the cashbook. OG was happy to sign the reconciliation.*

6.3 Cymeradwyo Taliadau | Payments for Approval

Trafodwyd cais Ambiwlans Awyr Cymru - Penderfynodd y Cyngor gyfrannu £250 o dan Adran 137(3)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, i gefnogi gwaith elusennol yr Ambiwlans Awyr a'i wasanaethau achub bywyd | *The Air Ambulance request for a contribution was discussed. The Council resolved to donate £250 under Section 137(3)(a) of the Local Government Act 1972, supporting the charity's work and its life-saving services*

Cadarnhaodd y Clerc fod dwy dorch wedi'u harchebu gan werthwr blodau lleol am £60 yr un, a'u bod wedi'u talu gyda cherdyn credyd y Cyngor. Bydd angen eu casglu ar y dydd Gwener cyn Sul y Cofio | *The Clerk confirmed that two wreaths had been ordered from a local florist at £60 each and paid for using the Council credit card. They will need to be collected on the Friday before Remembrance Sunday.*

Ystyriwyd cais am gyfraniad gan Ffermwyr Ifanc Ynys Môn. Cynigiodd EFP gyfraniad o £500, Penderfynodd y Cyngor gyfrannu £500 o dan Adran 137(3)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, i gefnogi gweithgareddau ieuenctid, addysg amaethyddol a hyrwyddo'r Gymraeg | *The request for a donation to Anglesey Young Farmers was considered. EFP proposed a donation of £500. The Council resolved to donate £500 under Section 137(3)(a) of the Local Government Act 1972, supporting youth activities, agricultural education and the promotion of the Welsh language.*

Eglurodd y Clerc fod adnewyddu cytundeb cynnal a chadw blynyddol TCC y gymuned yn ddyledus. Rhannwyd yr anfoneb am £3,771.07 (heb TAW), gan gynnwys gostyngiad cytunedig o 10% oherwydd bod y camerâu wedi bod allan o wasanaeth dros yr haf. Cymeradwyodd y Cyngor y gost adnewyddu | *The Clerk explained that renewal of the annual community CCTV maintenance contract was due. The invoice*

for £3,771.07(Excl. VAT) was shared, including the agreed 10% discount because the cameras had been inactive over the summer. The Council approved the renewal cost.

6.4 Canfyddiadau ac Argymhellion y Pwyllgor Cyllid | *Finance Committee Findings and Recommendations*

Rhoddodd JH adroddiad ar gyfarfod diweddar y Pwyllgor Cyllid. Eglurodd fod cyllideb y Cyngor yn cael ei monitro'n dda a bod cyllid ar gael ar gyfer syniadau creadigol. Anogodd yr aelodau i gyflwyno awgrymiadau. Eglurodd hefyd fod y gyllideb wedi'i diwygio drwy drosglwyddo dyraniadau o benawdau â thanwariant i dalu am orwariant ar benawdau eraill. Nid oedd hyn yn newid cyfanswm incwm na gwariant y Cyngor. | *JH reported on the recent Finance Committee meeting. He explained that the Council's budget was being monitored well and that funds were available for creative ideas, encouraging councillors to put forward suggestions. He also explained that the budget had been amended by reallocating budgets from underspent headings to cover overspends elsewhere. This did not affect the Council's total income or expenditure.*

7. Adroddiad y Clerc | *Clerk Report*

i) TCC: Cyflwynodd y Clerc adroddiad yn amlinellu'r problemau diweddar gyda'r system TCC, yr angen i adfer y camerâu i gyflwr gweithredol, a'r trefniadau ar gyfer adnewyddu'r contract cynnal a chadw blynyddol. Eglurodd y Clerc yr ymchwil a wnaed i ddarparwyr eraill, a'r gostyngiad o 10% a negodwyd gyda'r darparwr presennol. Cadarnhawyd mai derbyn y gostyngiad oedd yr opsiwn a oedd yn cynnig y gwerth gorau am arian. Trafodwyd hefyd yr angen i osod chwe chamera newydd er mwyn adfer y gwasanaeth TCC yn llawn. Rhannwyd dyfynbris o £3,961.08 ar gyfer y gwaith hwn. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r argymhellion, cytunodd y Cyngor i adnewyddu'r contract cynnal a chadw gyda'r gostyngiad o 10%, a chymeradwywyd y gwaith o osod y chwe chamera newydd am £3,961.08 | *CCTV: The Clerk presented a report outlining the recent issues with the CCTV system, the need to restore the cameras to full working order, and the arrangements for renewing the annual maintenance contract. The Clerk explained the research undertaken into alternative providers and the 10% discount negotiated with the existing contractor. It was confirmed that accepting the discount represented the best value for money. The need to install six new cameras to restore full CCTV coverage was also discussed, and a quotation of £3,961.08 was presented. Having considered the report and recommendations, the Council agreed to renew the maintenance contract with the 10% discount and approved the installation of six new cameras at a cost of £3,961.08.*

ii) Carreg enwi ac arwydd Bwlch: Cadarnhaodd y Clerc fod carreg enw Llanfair Mathafarn Eithaf wedi'i harchebu a bod trwydded wedi'i chael i'w gosod wrth y gyffordd ger y fynwent. Trafodwyd a chytunwyd ar eiriad arwydd 'Bwlch'. Awgrymwyd ychwanegu cod QR i gyfeirio pobl at wefan y Cyngor i esbonio arwyddocâd hanesyddol yr enw. Cytunwyd y byddai hyn yn syniad da ar gyfer ffyrdd a llwybrau hanesyddol eraill hefyd. Bydd y Clerc yn ymchwilio i arwyddion addas ac yn holi am drwydded gosod | *Naming stone and Bwlch sign: The Clerk confirmed that the Llanfair Mathafarn Eithaf naming stone had been ordered and a licence obtained for its installation at the junction near the cemetery. The wording for the "Bwlch" sign was discussed and agreed. Members suggested adding a QR code directing people to the Council website to explain the historical significance of the name. It was agreed that this would also be a good approach for other historic roads and paths. The Clerk will investigate suitable signs and enquire about a licence for installation.*

iii) Sul y Cofio: Cadarnhawyd bod pawb a wahoddwyd yn fodlon mynychu. Mae JH yn fodlon siarad yn ystod y gwasanaeth. Dim ond cwblhau rhaglen y gwasanaeth sydd ar ôl; mae'r trefniadau eraill wedi'u gwneud | *Remembrance Sunday: It was confirmed that all invitees were happy to attend. JH was happy to speak during the service. Only the service programme remained to be finalised; all other arrangements were in place.*

iv) Dosbarthu'r agenda: Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn fodlon parhau i dderbyn yr agenda drwy gyfrif

e-bost yr aelodau a WhatsApp. Cadarnhaodd y Clerc fod y cyfrinair wedi'i newid yn ddiweddar ac y bydd yn ei rannu gyda'r aelodau yr wythnos hon | *Agenda distribution: Members confirmed they were happy to continue receiving agendas through the members' email account and WhatsApp. The Clerk confirmed that the password had recently been changed and would be shared with members that week.*

v) Blaenoriaethau'r Cyngor: Rhannwyd copi o flaenoriaethau'r Cyngor i'w hystyried. Cytunwyd i gadarnhau unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd y dymuniad i osod Datganiad Gweledigaeth y Cyngor ar frig hafan y wefan. Bydd y Clerc yn gweithredu hyn | *Council priorities: A copy of the Council's priorities was shared for consideration. Any additions or amendments will be confirmed at the next meeting. Members wished to see the Council's Vision Statement at the top of the website homepage. The Clerk will action this.*

8. Adroddiad y Cynghorydd Sir | *County Councillor Report*

Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol. | *The County Councillor was not present.*

9. Unrhyw faterion nad ydynt ar yr agenda | *Any Additional Matters Discussed, not on the agenda*

Cadarnhaodd y Clerc y trefniadau ar gyfer ymweld â'r banc bwyd yng Nghaergybi. Cadarnhaodd OG, JH, SW ac EFP fod 13 Tachwedd am 15:00 yn gyfleus. Bydd RhMJ ac IK yn cadarnhau eu bod ar gael yn nes at y dyddiad. Rhannodd EFP daflen wybodaeth am raglen elusen Bwyd Da Môn | *The Clerk confirmed arrangements for the visit to the food bank in Holyhead. OG, JH, SW and EFP confirmed that 13 November at 3:00 pm was convenient. RhMJ and IK will confirm their availability nearer the date. EFP shared an information leaflet about the Bwyd Da Môn charity programme*

Trafododd yr aelodau hefyd straeon hanesyddol lleol ac anogwyd RhJ i rannu rhai ohonynt, gyda'r Cyngor yn parhau i rannu hanes y gymuned. | *Members also discussed local historical stories, encouraged RhJ to share some of these, and supported the Council continuing to share the history of the community.*

Daeth y cyfarfod i ben am | 20:40 | *The meeting ended at.*

Dyddiad y cyfarfod nesaf | 23/11/2026 | *Date of next meeting.*

Draft